Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA), bisffenolau eraill a deilliadau bisffenolau mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 2 Hydref 2025
Dyddiad cau: 24 Rhagfyr 2025

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Busnesau bwyd
- Gweithgynhyrchwyr bwyd a phecynnu
- Manwerthwyr a dosbarthwyr
- Mewnforwyr ac allforwyr
- Grwpiau eiriolaeth diogelwch ac iechyd defnyddwyr
- Arbenigwyr gwyddonol ac academaidd
- Y cyhoedd
- Awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd
- Cynghorau dosbarth

## Diben yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cefnogi gwahardd bisffenol A (BPA), bisffenolau eraill, a deilliadau bisffenolau mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd. Nid bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ailedrych ar y consensws gwyddonol ar risgiau BPA. Yn hytrach, y nod yw casglu unrhyw dystiolaeth gadarn, a allai gyfiawnhau dull amgen ar gyfer BPA a'i analogau. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn helpu i nodi unrhyw ystyriaethau ymarferol ar gyfer gweithredu, gan gynnwys cyfnodau trosiannol ac eithriadau posib, gan osod trothwy tystiolaethol uchel ar gyfer unrhyw wrthwynebiadau.

## Pecyn Ymgynghori

Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn darparu'r wybodaeth gefndirol a'r manylion y bydd angen i chi eu gwybod er mwyn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

### England, Northern Ireland and Wales

PDF

Gweld Pecyn Ymgynghori - Cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA) a bisffenolau eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd as PDF(Open in a new window) (324.56 KB)

### England, Northern Ireland and Wales

WORD
Gweld Ymgynghoriad ar y cynnig i wahardd defnyddio bisffenol A (BPA) a bisffenolau eraill mewn deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd as Word(Open in a new window) (177.69 KB)

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r ffurflen ar-lein hon.

Os nad yw'n bosib, gallwch e-bostio eich ymateb i: FCM-BPA@food.gov.uk

Rhaid i'r ymatebion ddod i law erbyn 24 Rhagfyr 2025 am 17:00. Yn eich ymateb, nodwch a ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat, neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

## Ymatebion

Darllenwch y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.